# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

**COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 10fed o FAWRTH 2026 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.**

1. **Presennol** - Siân Dafydd (cadeirydd), Gareth Jones (Talysarn), Celfyn Roberts, Barry Bracegirdle, Ceri Owen (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts (Llanllyfni), Dafydd Thomas (Nebo), Cyng. Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** -Harry Wyn Owen, Nigel Williams (Talysarn), Erfyl Williams, Judith Humphreys, Justin Davies (Penygroes), David Jones (Nantlle), Tesni Glyn (Llanllyfni).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes.

2. **Datgan buddiant** – Siân Dafydd – pwynt 11 – Ceisiadau Cynllunio.

3. **Cofnodion cyfarfod 10fed o Chwefror 2026** - Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion** - **Diogelwch ffordd Ysgol Dyffryn Nantlle a Bro Lleu** - y dilyn gyrru at Swyddogion Cyngor Gwynedd am hyn a chael ymateb angen gofyn iddynt i barhau ac ail-asesu cael croeswr ffordd ar y safle. Hefyd, angen tynnu sylw Cyng. Craig ab Iago at y pryderon sydd wedi ei codi. **Ymweliad Stad dai newydd Penygroes** - os oes yna unrhyw un o'r cyngor yn awyddus i ymweld â'r stad newydd yna angen cysylltu â Ceri Owen i drefnu. **Llinellau melyn** - adroddwyd bod y llinellau melyn wedi eu rhoi ar waelod Lôn Eglwys Talysarn. **Cwt Mynwent Gorffwysfa** - angen dilyn fyny gyda'r contractwyr pryd maent am fynd i osod y llechen sydd wedi disgyn.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas. Aethpwyd drwy'r adroddiad a rhoi cyfle i bawb godi unrhyw sylwadau. Diolchwyd i Cyng. Thomas am ei waith.

6. **Cyfarfod is-bwyllgorau** – nid oedd cyfarfodydd wedi eu cynnal yn ystod y mis.

7. **Sedd Wag Nebo** - adroddwyd bod Dafydd Thomas wedi hysbysu'r cyngor cymuned y bydd yn rhoi ei sedd fel cynrychiolydd dros Ward Nebo i fyny yn dilyn cyfarfod heno. Diolchwyd i Dafydd am ei waith dros y blynyddoedd fel aelod a hefyd fel cadeirydd ddwywaith dros ei gyfnod, a dymunwyd y gorau iddo a Mrs Thomas yn eu cartref newydd. Diolchodd Dafydd i bawb am eu gwaith dros y blynyddoedd ac am y gefnogaeth pan oedd yn gadeirydd. Bydd y clerc yn rhoi hysbyseb fyny yn dilyn hyn am sedd wag Ward Nebo.

8. **Taflen ariannol a chyllid** - Pawb wedi derbyn copi o'r daenlen i edrych drosti. **Cais am gefnogaeth ariannol gan Ŵyl Gerdd Dant Caernarfon 2026** - cais wedi ei dderbyn gan bwyllgor y Gwŷl Gerdd Dant a fydd eleni yn cael ei chynnal yng Nghaernarfon. Darllenwyd yr e-bost i bawb a thrafodwyd y cais. Cafwyd cynigion o gyfrannu £100, £200 a £500. Trafodwyd ymhellach a theimlwyd ei bod yn bwysig cefnogi gan mai unwaith yn unig y bydd hyn yn digwydd. Yn dilyn cynnal pleidlais, pleidleisiwyd i roi cyfraniad o £500 iddynt. **Cais am nawdd gan griw BL9 Ysgol Dyffryn Nantlle i gasglu sbwriel** - trafodwyd y cais ac yn anffodus gan fod y dyddiad cau wedi bod cynigwyd y dylid ei wrthod am fod ceisiadau eraill o'r math hyn wedi eu gwrthod yn flaenorol. Eiliwyd y cynnig a gofyn i'r clerc gysylltu â nhw i esbonio a dweud wrthyn fod croeso iddynt drio eto'r flwyddyn nesaf gan nodi bod angen mwy o fanylion a hefyd mantolen. Trafodwyd wedyn y dylid cysidro i roi rhywbeth ar y gyllideb arwahan i'r cyfraniadau ar gyfer ceisiadau fel hyn (ceisiadau am arian ond sydd yn cynnig gwasanaeth i'r gymuned ee casglu sbwriel). **Cyflog Clerc** - bu i'r clerc adael yr ystafell tra roedd y cynghorwyr yn trafod a gwnaeth Ceri Owen gymryd cofnodion - adroddwyd bod y clerc ar hyn o bryd ar gyflog pwynt 19 ac mae fod wedi codi ers Tachwedd 2025. Oherwydd hyn bydd angen trefnu ôl-daliad cyn diwedd y flwyddyn ariannol yma. Ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf cynnigwyd i'r clerc gael codiad yn y cyflog o 52c yr awr. Eilwyd a chytunodd pawb. **Yswiriant blynyddol** - llythyr adnewyddu yswiriant blynyddol y cyngor cymuned wedi ei dderbyn. Angen edrych i weld os oes unrhyw beth angen ei newid / tynnu / adio i'r polisi a gofyn am bris newydd. Y clerc i wneud hyn a chael pris cyn cyfarfod mis Ebrill. **Costau cynnal Clwb Ieuenctid am 2026/27** - mae cynnal un noson yr wythnos (30 sesiwn) yn gostau o oddeutu £9,000.00 felly buasai cynnal noson

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _______________________________ Dyddiad - ___________

ychwanegol yn ddwbl hyn i £18,000. Penderfynwyd trafod hyn ymhellach yn yr is-bwyllgor cyllid sydd i'w gynnal ar 24ain o Fawrth.

9. **Materion Pentrefi** - **Llanllyfni -** angen cysylltu ag ADRA ynglŷn â faniau gwaith sydd yn parcio ar y stryd ar ôl amser gwaith. Esbonio bod problem parcio yn y pentref fel y mae a gofyn oes modd iddynt drefnu bod y faniau yn cael eu parcio ar eu safle ym Mhenygroes ar ôl oriau gwaith. Cwynion wedi eu derbyn am sbwriel sydd ymhobman yn dilyn casglu'r ail-gylchu. Angen cysylltu â Chyngor Gwynedd am hyn. Dŵr yn rhedeg o'r cae chwarae i'r man parcio ar Lôn Ddŵr ac angen i Gyngor Gwynedd ddod i weld beth yw'r sefyllfa. **Nebo** - angen cysylltu ag ADRA ynglŷn â sbwriel a polisteirin sydd wedi chwythu ymhobman yn dilyn gwaith sydd wedi cael ei wneud ar dai yn y pentref yn ddiweddar. **Talysarn -** tyllau ar Ffordd Penllwyn angen sylw gan Gyngor Gwynedd. **Nantlle -** yr arwydd cyflymder ddim wedi gweithio yn iawn ers ei gael felly angen cysylltu â'r cwmni i wed sut mae ei yrru nôl o dan y warant a pwy fydd yn talu'r costau fydd yn ymwneud â hyn. **Penygroes -** gyliau angen eu gwagio yn Trem Yr Wyddfa. Cerbiau heb gael eu tarmac yn Trem Yr Wyddfa er wedi gofyn i Gyngor Gwynedd ddod allan ers rhai misoedd bellach. Darn o slab ger Cae Catrin wedi torri ac yn beryglus - angen sylw brys. Tyllau yn y ffordd tu ôl i'r hen siop fferyllfa ac i lawr am hen safle'r siop Co-op.

10. **Llwybrau a Mynwentydd** - angen dilyn fyny ar bryd fydd y llechen yn cael ei gosod nôl ar do'r cwt yng Ngorffwysfa.

11. **Ceisiadau Cynllunio** - bu i Siân Dafydd adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth hon. Trafodwyd y cais a oedd wedi ei derbyn ac nid oedd dim gwrthwynebiad.

- Bryn Llys Mawr, Ffordd Cors Y Llyn Nebo – Adeiladu sied amaethyddol

12. **Gohebiaeth** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis ac aethpwyd drwyddynt a rhoi cyfle i unrhyw un godi unrhyw beth.

- Cyngor Gwynedd - Grant Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned - rhoi post ar y cyfryngau cymdeithasol am hyn a gofyn i bobl am syniadau. Hefyd, gyrru i'r ysgolion lleol i ofyn a oes ganddynt unrhyw syniadau.
- Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg – gyrru i gefnogi hyn.

13. **Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r isod.

- Nia Jones - ffôn a gwe = **£25.00**
- Un Llais – aelodaeth 2026/27 = **£901.00**
- Designer Signs – atgyweirio safle bws = **£218.40**
- Dŵr Cymru = **£143.59**
- Canolfan Talysarn – defnydd ar gyfer cyfarfodydd = **£100.00**
- Steven Lewis – gwaith torri llwybrau a mynwentydd = **£855.00**

14. **Unrhyw fater arall** - bu i gŵyn gael ei dderbyn am garafanau ayyb sydd wedi eu parcio ar ddarn o dir ger Lôn Eifion rhwng Penygroes a chylchdro Inigo Jones - gofynnwyd i'r clerc gysylltu ag adran cynllunio Cyngor Gwynedd am hyn.

15. **Tir Cwtin** – nid oedd dim i'w drafod ar hyn.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 14eg o Ebrill 2026 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ______________________________ Dyddiad - ___________